# Grŵp Rhanddeiliaid y Safle / Site Stakeholder Group



Wylfa

16/10/25

**Safle Wylfa – Adroddiad i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle**
**Stuart Law, Cyfarwyddwr y Safle**

**Wylfa Site – Report to Site Stakeholder Group**
**Stuart Law, Site Director**

# Ystadegau diogelwch / EHSS&Q statistics

- Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
- Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00
- Nifer o ddiwrnodau ers damwain colli amser (10.07.2018): 2641 diwrnod (02.10.2025)



- Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
- Days away case rate (DACR): 0.00
- No. of days since a lost time accident (10.07.2018): 2641 days (as of 02.10.2025)

# Pobl / People

## Un Tîm Wylfa

- Safle wedi cychwun gwaith ar ein Cynllun Busnes ar gyfer y 4 mlynedd nesaf (BC26/27 ymlaen), a fydd yn cael ei gyflwyno ar ym mis Tachwedd.
- 190 staff NRS ar y safle (mae hyn yn cynnwys 5 gweithiwr asiantaeth.
- 7 prentis – 4 wedi ymuno yn yn mis Awst.
- 80 staff NRS wedi lleoli yn y Hwb (Swyddogaethau Cymorth Canolog). Mae hyn yn cynnwys gweithwyr a gyflenwir gan gontractwr ac un aelod gweithredol.

## Wylfa One Team

- The site has started work on its Business Plan for the next 4 years (FY26/27 onwards) which will be presented at Company level in November.
- 190 NRS site staff (this includes 5 Agency Supplied Workers.
- 7 apprentice - 4 recently joined in August
- 80 NRS staff based at the Hub (Central Support Functions). This includes four contractor supplied workers and one executive member.



# Pobl / People

**Cefnogi gweithlu Wylfa**

Rydym yn parhau i gefnogi:


- Cyfleoedd datblygu, mae hyn yn cynnwys cyrsiau ym Mhrifysgol Bangor.
- Ymgyrchoedd cynaliadwyedd, STEM a iechyd meddwl yn ogystal â amrwyiaeth o rwydweithiau ar draws y cwmni.

**Supporting the Wylfa workforce**

We continue to support:

- Career development opportunities, these include Bangor University courses.
- Sustainability, STEM and Mental Health initiatives along with various company wide network groups.





# Diweddariad Safle / Site update:
## Cyfiawnhau targedau allweddol / Achieving key targets

Transform

Deliver

## System troshaen drydanol

Mae'r prosiect System Troshaen Trydanol (EOS) yn fenter allweddol yn Wylfa, wedi'i chynllunio i ailgyfeirio cyflenwad trydan y safle. Unwaith y bydd wedi'i gyflawni, bydd yn rhyddhau arbedion cost hirdymor ac yn galluogi prosiectau dadgomisiynu yn y dyfodol.


**Cynnydd hyd yma:**

- Mae'r gwaith galluogi wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, gan wella diogelwch ac effeithlonrwydd gweithredol ar draws y safle.
- Mae'r hen fyrddau switsh wedi'u dadgysylltu, eu dadosod, a'u tynnu'n llwyr.
- Mae gwaith parhaus yn digwydd ar hyd y ffordd at y safle, ar y cyd â Scottish Power.

**Cam nesaf:**
Mae'r safle bellach wedi derbyn awdurdodiad i symud ymlaen i gyfnod cyflawni'r system drydanol newydd. Mae hyn yn nodi trosglwyddiad o gynllunio i weithredu — gyda gweithgareddau adeiladu, gosod, a chomisiynu ar fin dechrau.

**Edrych ymlaen:**
Mae hwn yn gam sylweddol tuag at ddarparu seilwaith trydanol gwydn ac yn barod ar gyfer y dyfodol, gan gefnogi amcanion strategol hirdymor y safle.





## Electrical overlay system

The Electrical Overlay System (EOS) project is a pivotal initiative at Wylfa, designed to re-route the site's electrical supply. Once delivered, it will unlock long-term cost savings and enable future decommissioning projects.

**Progress to date:**

- Enabling works successfully completed, enhancing both safety and operational efficiency across the site.
- Legacy switchboards have been decabled, dismantled, and fully removed.
- Ongoing works continue along the approach road in collaboration with Scottish Power.

**Next phase:**
The site has now received authorisation to move into the delivery phase of the new electrical system. This marks a transition from planning to action — with construction, installation, and commissioning activities set to begin.

**Looking ahead:**
This is a significant step forward in delivering a resilient and future-ready electrical infrastructure, supporting the site's long-term strategic goals.

NDA | NRS Nuclear Restoration Services

# Diweddariad Safle / Site update:
## Cyfiawnhau targedau allweddol / Achieving key targets

Deliver

Innovate

### Prosiect offer awyru – adweithyddion yn anadlu'n naturiol

Carreg filltir sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd yn Wylfa. Gyda'r tannwydd wedi'i dynnu o'r adweithyddion yn Wylfa ers blynyddoedd lawer, nid oes angen awyru'r gofod bellach drwy gyflenwad aer sych. Cytunwyd y gellid cau'r system awyru'n ddiogel.

**Canlyniadau allweddol:**

- Systemau diangen wedi'u tynnu, gan gefnogi prosiect Diwedd y Safle (EOS) drwy ddileu'r angen am drydan i'w gweithredu.
- Arbediad cost blynyddol o £130,000 wedi'i gyflawni drwy leihau defnydd trydan.
- O safbwynt cynaliadwyedd:Diffoddwyd y systemau oeri.Tynnwyd glycol a nwy oergell — y ddau'n niweidiol i'r amgylchedd — yn llwyr o'r system.

**Cam nesaf:**

- Cau y systemau sy'n weddill. Gosod pibellau newydd.
- Sefydlu pwynt samplu i gefnogi monitro a sicrwydd yn y dyfodol.

### Vessel vent project – natural breathing reactors

A sustainability-focused milestone at Wylfa. The reactors at Wylfa, having been defuelled for many years, no longer required ventilation via a dry air supply. It was agreed that the ventilation system could be safely shut down.

**Key outcomes:**


- Redundant systems removed, supporting the (EOS) project by eliminating the need for electricity to run them.
- £130,000 annual cost saving achieved through reduced electricity usage.
- From a sustainability perspective: Chillers were switched off. Glycol and refrigerant gases — both harmful to the environment — were fully removed from the system.

**Next Phase:**

- Final closure of remaining systems. Installation of new pipework.
- Establishment of a sampling point to support future monitoring and assurance.

NDA | NRS Nuclear Restoration Services

# Diweddariad safle / Site update:
## Cyfiawnhau targedau allweddol / Achieving key targets




### Uwchraddio'r system rheoli diogelwch

Wedi cyrraedd carreg filltir bwysig gyda'i uwchraddiad i'r System Rheoli Diogelwch (SMS), gan sicrhau cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam cyflawni — gan hyrwyddo un o nodau strategol y safle ar gyfer 2025/26.

**Canlyniadau allweddol:**
- Rhan o fenter ar draws y fflyd i ddisodli systemau hen ffasiwn.
- Yn cryfhau'r seilwaith diogelwch ac yn lleihau costau cynnal a chadw.
- Cydweithrediad cryf rhwng timau'r safle a swyddogaethau canolog wedi llunio cynllun cyflawni clir ac effeithiol sy'n cyd-fynd â nodau trawsnewid hirdymor.

**Cam nesaf:**
- Cyflwyno'r systemau uwchraddiedig.
- Dadgomisiynu seilwaith darfodedig.

**Bydd y cam nesaf yn sicrhau bod Wylfa yn parhau'n ddiogel, yn wydn ac yn barod ar gyfer y dyfodol.**

### Security management system upgrade

Reached a major milestone with its Security Management System (SMS) upgrade, securing approval to move into the delivery phase—advancing one of the site's strategic goals for 2025/26.

**Key outcomes:**
- Part of a fleet-wide initiative to replace outdated systems.
- Strengthens security infrastructure and reduces maintenance costs.
- Strong collaboration between site teams and central functions shaped a clear, effective delivery plan aligned with long-term transformation goals.

**Next Phase:**
- Rollout of upgraded systems.
- Decommissioning of obsolete infrastructure.

**This next phase ensures Wylfa remains secure, resilient, and future-ready.**



# Diweddariad safle / Site update:
## Rhaglen datgomisiynu / Decom programme

Innovate

Deliver

### Cyfleuster prosesu gwastraff anweithredol

Er mai ein rôl sylfaenol yw dadgomisiynu a dymchwel seilwaith etifeddol, mae adegau pan fo angen creu cyfleusterau newydd i gefnogi gweithrediadau parhaus ac anghenion y safle yn y dyfodol.

Mae'r cyfleuster yma'n alluogwr allweddol ar gyfer trin gwastraff yn ddiogel ac yn effeithlon, ac yn enghraifft wych o sut mae ein gwaith yn ymestyn y tu hwnt i ddymchwel — weithiau, rydym yn adeiladu hefyd.

**Canlyniadau allweddol:**
- Yn cefnogi gweithrediadau parhaus ac anghenion y safle yn y dyfodol.
- Yn galluogi trin gwastraff yn ddiogel ac yn effeithlon.



### Non- active waste clearance facility

Although our primary role is to decommission and demolish legacy infrastructure, there are times when we also need to create new facilities to support ongoing operations and future site needs.

This structure is a key enabler for safe and efficient waste handling, and it's a great example of how our work extends beyond removal—sometimes, we build too.

**Key outcomes:**
- Supports ongoing operations and future site needs.
- Enables safe and efficient waste handling.

# Diweddariad Safle / Site update:
## Rheoli asedau/ Asset management




### Newid gwydrau y neuadd tyrbin

Mae'r neuadd tyrbin yn Wylfa yn uwchstrwythur mawr (tua 232m x 24m) sy'n gartref i'r tyrbinau a gynhyrchodd drydan.

Cafodd y rhannau gwydrog mawr eu cynllunio'n wreiddiol i ganiatáu golau naturiol, ond dros amser daethant yn agored i dywydd arfordirol eithafol.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn a diogelu cyfanrwydd yr adeilad yn y tymor hir, tynnwyd 1184 ffenestr wydr a'u disodli â gorchudd gwydn.

**Canlyniadau allweddol:**

- Gwydnwch gwell yn erbyn amodau tywydd garw.
- Yn cryfhau amlen yr adeilad ac yn cefnogi diogelu asedau.





### Turbine hall glazing replacement

The turbine hall at Wylfa is a major superstructure (approx. 232m x 24m) that houses the turbines that were used to generate electricity.

Originally designed with large glazed sections to allow natural light in, these windows had become increasingly vulnerable to extreme coastal weather.

To address these risks and protect the building's long-term integrity, the team removed 1184 panels and replaced them with durable cladding.

**Key outcomes:**

- Improved resilience against harsh weather conditions.
- Strengthens the building envelope and supports asset protection.

NDA | NRS Nuclear Restoration Services

# Diweddariad Safle / Site update:
## Rheoli asedau/ Asset management

Deliver

Transform

### Uwchraddio’r system dŵr domestig

Mae angen uwchraddio’r system dŵr domestig yn yr adeilad weinyddiaeth oherwydd ei hoedran a’r angen i fynd i’r afael â pheryglon legionella.

Mae’r gwelliant rhagweithiol hwn yn sicrhau cyflenwad dŵr mwy diogel a dibynadwy, gan gefnogi safonau’r safle yn y tymor hir.

**Cynnydd hyd yma:**
- Tîm wedi gosod bracedi newydd a phibellau.
- Gosod panel rheoli dŵr poeth





### Domestic water system upgrade

The domestic water system within the administration building required upgrading due to its age and the need to address legionella risks.

This proactive improvement ensures a safer, more reliable water supply and supports long-term site standards.

**Progress so far:**
- Team have installed new brackets and pipework.
- Installation of calorifier control panel

NDA | NRS Nuclear Restoration Services

# Cynaliadwyedd/ Sustainability

Mae Nuclear Restoration Services (NRS) wedi lansio ei Strategaeth Cynaliadwyedd newydd, gan amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer darparu gwerth amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar draws ei safleoedd a'i gymunedau.

Yn Wylfa, mae hyn yn golygu datblygu Cynllun Cynaliadwyedd Safle penodol — fframwaith i helpu blaenoriaethu a chyflwyno mentrau gwyrdd, cyfleoedd economaidd, gwirfoddoli, a chysylltiadau cymunedol.

**Canlyniadau allweddol:**

- Yn cyd-fynd â ymrwymiad NRS i adael etifeddiaeth gadarnhaol drwy ddadgomisiynu sy'n ddiogel, yn sicr ac yn gynaliadwy.
- Yn darparu dull lleol o gynaliadwyedd, wedi'i deilwra i gyd-destun unigryw Wylfa a'i gymuned.
- Yn cefnogi cydweithredu traws-swyddogaethol i gyflawni effaith ystyrlon ar draws pileri amgylcheddol, cymdeithasol, ac economaidd.

Mae hwn yn gam pwysig tuag at sicrhau bod cynaliadwyedd nid yn unig yn nod — ond yn ffordd o weithio ar draws pob agwedd ar weithrediadau'r safle.

Nuclear Restoration Services (NRS) has launched its new Sustainability Strategy, setting out a clear vision for how the organisation will deliver environmental, economic, and social value across its sites and communities.

At Wylfa, this means developing a dedicated Site Sustainability Plan — a framework to help prioritise and deliver green initiatives, economic opportunities, volunteering, and community engagement.

**Key outcomes:**

- Aligns with NRS's commitment to leave a positive legacy through safe, secure, and sustainable decommissioning.
- Provides a localised approach to sustainability, tailored to Wylfa's unique context and community.
- Supports cross-functional collaboration to deliver meaningful impact across environmental, social, and economic pillars.

This marks an important step in ensuring sustainability is not just a goal — but a way of working across all aspects of site operations.



SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS


## Gwirfoddoli cymunedol

Cymerodd y tîm amser yn ystod y prynhawn i gefnogi achos lleol — Tyddyn Môn, elusen ar Ynys Môn sy'n darparu cymorth ystyrlon a chyfleoedd i oedolion ag anableddau dysgu.

**Canlyniadau allweddol:**

- Er gwaethaf y tywydd, rhoddodd y tîm eu hunain i amrywiaeth o dasgau awyr agored gan gynnwys:
    - Paentio, plannu blodau haul, chwynnu, ac adeiladu gwesty pryfed.
- Gwnaeth eu hymdrechion wahaniaeth gwirioneddol i dir a gerddi'r elusen.
- Derbyniwyd y gefnogaeth yn gynnes gan aelodau a staff Tyddyn Môn, a fynegodd eu diolchgarwch.

Mae hyn yn nodi'r trydydd tro i Wylfa bartneru â Tyddyn Môn drwy Neighbourly, llwyfan sy'n cysylltu busnesau â phrosiectau cymunedol lleol.



## Community volunteering



The team took time out of their afternoon to support local cause — Tyddyn Môn, a charity on Anglesey that provides meaningful support and opportunities for adults with learning disabilities.

**Key outcomes:**


- Despite the weather, the team got stuck into a range of outdoor tasks including:
    - Painting, planting sunflowers, weeding, and building an insect hotel from pallets.
- Their efforts made a real difference to the charity's grounds and gardens.
- The support was warmly received by Tyddyn Môn members and staff, who expressed their gratitude.

This marks the third time Wylfa has partnered with Tyddyn Môn through Neighbourly, a platform that connects businesses with local community projects.





SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS



# Gwirfoddoli cymunedol

Cymerodd staff o Wylfa ran mewn glanhau traeth yn Aberffraw, a drefnwyd drwy llwyfan gwirfoddoli Neighbourly i gefnogi Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae'r gweithgaredd hwn yn ran o ymdrech ehangach y safle i hyrwyddo cynaliadwyedd, gan leihau effaith amgylcheddol a chynnig cyfleoedd ystyrlon i staff.

**Canlyniadau allweddol:**

- Casglwyd cymaint o wastraff na ellid ei gludo i gyd yn ôl — arwydd cadarnhaol o ymroddiad y tîm.
- Mae'r glanhau'n cefnogi'r gymuned leol ac yn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Community volunteering

Staff took part in a beach clean at Aberffraw, organised through the Neighbourly volunteering platform in support of Keep Wales Tidy.

This activity forms part of the site's wider sustainability drive, helping to reduce environmental impact while creating meaningful opportunities for staff.

**Key outcomes:**

- So much waste was collected it couldn't all be carried back — a positive sign of the team's hard work and commitment.
- The clean-up supports the local community and helps protect our natural surroundings for future generations.







# STEM

Grow

## Ysbrydoli doniau'r dyfodol ym meysydd STEM a niwclear

Cymerodd 11 o fyfyrwyr o bob cwr o Ogledd Cymru ran mewn rhaglen profiad gwaith pedwar diwrnod yn safle Wylfa yr haf hwn, gan gamu i fyd dadgomisiynu niwclear.

Nod y fenter oedd meithrin diddordeb mewn gyrfaoedd STEM a dangos y cyfleoedd amrywiol yn y sector niwclear.

**Canlyniadau allweddol:**

- Archwiliodd y myfyrwyr heriau technegol ac amgylcheddol drwy gweithdai, teithiau safle, a gweithgareddau rhyngweithiol.
- Cawsant gyfle i siarad â gweithwyr proffesiynol ym meysydd peirianneg, gwyddoniaeth amgylcheddol, a chyflwyno prosiectau.
- Daeth y wythnos i ben gyda chyflwyniadau gan fyfyrwyr, lle rhannodd y cyfranogwyr eu myfyrdodau a'u syniadau ar gyfer y dyfodol.



- Cafodd y sesiynau ymarferol ym meysydd trydan, gwastraff, ecoleg, a ffiseg iechyd eu canmol yn arbennig.

**Dywedodd Ffion Morris, Rheolwr Peirianneg a Chynnal a Chadw yn Wylfa:**

**"Mae cael pobl ifanc yn gyffrous am STEM yn hanfodol — nid yn unig ar gyfer eu dyfodol, ond ar gyfer ein dyfodol ni hefyd."**


## Inspiring future talent in STEM and nuclear

11 students from across North Wales took part in a four-day work experience programme at the Wylfa site this summer, stepping into the world of nuclear decommissioning.

The initiative aimed to spark interest in STEM careers and showcase the diverse opportunities within the nuclear sector.

**Key outcomes:**

- Students explored technical and environmental challenges through workshops, site tours, and interactive activities.
- They engaged with professionals across engineering, environmental science, and project delivery.
- The week concluded with student presentations, where participants shared reflections and ideas for the future.



- The programme was praised for its hands-on sessions in electrical, waste, ecology, and health physics.

**Ffion Morris, Engineering & Maintenance Manager at Wylfa said:**

**"Getting young people excited about STEM is vital—not just for their futures, but for ours."**

# Ymgysylltu gyrfaoedd cynnar / Early careers engagement

Mae ein prentisiaid a’n graddedigion wedi bod yn brysur yn gweithio gyda’r tîm Gyrfaoedd Cynnar i roi Wylfa ar y map i bobl ifanc sy’n ystyried gyrfa yn y maes niwclear.

Yn ddiweddar, maent wedi mynychu ffairiau gyrfaoedd, gan rannu eu profiadau uniongyrchol gyda myfyrwyr — gan dynnu sylw at fanteision prentisiaethau, gan gynnwys y cyfle i dderbyn cyflog wrth ddysgu.

**Canlyniadau Allweddol:**

- Cryfhau cysylltiadau gyda phobl ifanc a thalent y dyfodol.
- Hyrwyddo gwerth prentisiaethau a llwybrau graddedigion.
- Dangos Wylfa fel lle o gyfle, arloesedd a dysgu.

Bu rhai o’r prentisiaid hefyd yn cynrychioli'r safleoedd mewn digwyddiad seneddol i nodi 20 mlynedd ers sefydlu’r NDA, gan ddathlu arloesedd, cydweithredu a chynnydd ym maes datgomisiynu niwclear.

I nodi’r achlysur, crëwyd pâr unigryw o lyfrddaliadau gan Wylfa oedd wedi greu gyda ferret grabs — offer mecanyddol a ddyluniwyd yn wreiddiol i dynnu elfennau tanwydd oedd yn sownd — arwydd o dreftadaeth beirianneg y safle.

Grow

Our apprentices and graduates have been busy working with the Early Careers team to put Wylfa on the map for young people considering careers in nuclear.

They’ve recently attended careers fairs, sharing their first-hand experiences with students and school leavers — helping to highlight the benefits of apprenticeships, including the opportunity to earn while you learn.

**Key Outcomes:**

- Strengthened connections with young people and future talent.
- Promoted the value of apprenticeships and graduate pathways.
- Showcased Wylfa as a place of opportunity, innovation, and learning.

Some of our apprentices also represented the sites at a parliamentary event marking 20 years of the NDA, which celebrated innovation, collaboration, and progress in nuclear decommissioning.

To mark the occasion, Wylfa created a unique pair of bookends featuring ferret grabs — mechanical tools originally designed to remove stuck fuel elements — a creative nod to the site’s engineering heritage.












## Ymarfer argyfwng amlasiantaeth

Yn ddiweddar, cefnogodd Wylfa ymarfer argyfwng amlasiantaeth a drefnwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan ddefnyddio'r safle fel lleoliad hyfforddi byw.

Daeth sawl gwasanaeth brys at ei gilydd i brofi gweithdrefnau ymateb, cryfhau cydweithrediad, ac ehangu parodrwydd cyffredinol.

**Canlyniadau allweddol:**

- Darparodd hyfforddiant realistig wedi'i seilio ar senarios mewn amgylchedd diwydiannol cymhleth.
- Hyrwyddodd cydweithrediad rhwng asiantaethau, gan gynnwys y gwasanaeth tân, yr heddlu, a gwasanaethau meddygol.
- Cynnig cyfle ar gyfer dysgu parhaus a phrofi gwydnwch.
- Atgyfnerthodd ymrwymiad Wylfa i gynllunio argyfwng rhanbarthol a diogelwch cymunedol.

## Multi-Agency Emergency Exercise

Wylfa recently supported a multi-agency emergency exercise organised by North Wales Fire and Rescue Service, using the site as a live training location.

The event brought together multiple emergency services to test response procedures, strengthen collaboration, and enhance overall emergency preparedness.

**Key outcomes:**

- Enabled realistic scenario-based training in a complex industrial environment.
- Promoted collaboration between agencies, including fire, police, and medical services.
- Provided an opportunity for continuous learning and resilience testing.
- Reinforced Wylfa's commitment to supporting regional emergency planning and community safety





NDA | NRS Nuclear Restoration Services

# Meysydd i'w gwella / Areas for improvement

- **Canlyniadau uchel o Legionella**: Mae trefn fflysio yn ei le ac o dan adolygiad cyson. Ble mae canlyniadau wedi awgrymu risg dyrchafedig, mae'r cyfleusterau yna wedi cael ei dynnu allan o wasanaeth. Nid oes yna faterion iechyd brys ar y safle.

- **Diraddio cyfarfpar a methiannau offer**: Nodwyd diraddio a chyrydiad rhai strwythurau. Bydd mwy o wyliadwriaeth a rheoli asedau yn helpu i flaenoriaethu gyda naill ai atgyweirio neu ddymchwel.

- **High Legionella results**: An enhanced flushing regime is currently in place and under constant review. Where results have indicated an elevated risk, those facilities have been taken out of use. There is no immediate health issues on site.

- **Plant degradation & equipment failures**: The degradation & corrosion of some structures have been noted. Increased vigilance, defect & asset management will assist with prioritising repair or removal.

# Diweddariad economiadd- cymdeithasol - Prosiect Trawsnewidiol / NRS Socio-economic update - Transformational project

**Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Adfywio Gogledd Môn -**
Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) cymeradwyo £351,000 o gyllid i gefnogi Cyngor Sir Ynys Môn wrth gyflwyno'r Cynllun Adfywio Gogledd Môn dros y tair blynedd nesaf.

Bydd y cyllid hwn yn helpu i ryddhau £11.6 miliwn o waith adfywio sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad economaidd, seilwaith, a threftadaeth yn Amlwch — gyda'r nod o roi hwb o £20 miliwn i'r economi ehangach.

**Canlyniadau Allweddol:**


- Yn cefnogi adfywio hirdymor yng Ngogledd Môn.
- Yn manteisio ar fuddsoddiad sylweddol i gyflawni effaith leol.
- Yn creu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, datblygu sgiliau, ac adnewyddu cymunedol.
- Yn dangos dychweliad cryf ar fuddsoddiad ac ymrwymiad i drawsnewid lleoedd.

**Isle of Anglesey County Council, North Anglesey Regeneration Plan-**
Nuclear Decommissioning Authority (NDA) approved £351,000 to support Isle of Anglesey County Council in delivering the North Anglesey Regeneration Plan over the next three years.

Funding will help unlock £11.6 million of regeneration work focused on economic development, infrastructure, and heritage in Amlwch — with the projected outcome of a £20 million boost to the wider economy.

**Key Outcomes:**

- Supports long-term regeneration in North Anglesey.
- Leverages significant investment to deliver local impact.
- Creates opportunities for employment, skills development, and community renewal.
- Demonstrates strong return on investment and commitment to place-based transformation.






Amlwch Port Urban Parkland - £1.6m



Construct 10 high quality business units in Amlwch - £5.1m


Marine Terminal Building Refurbishment, Amlwch Port - £4.9m

## Helpu i greu cymunedau cynaliadwy / Helping to build sustainable communities

Cafodd buddsoddiad **Cyngor Cymuned Llanbadrig** hwb gyda £10,000 o gyllid NRS tuag at brosiect gwerth £214,000 i wella caeau chwarae Cemaes yn ogystal â datblygu ardal chwarae gynaliadwy, yn ogystal a dylunio gofod chwarae sy'n hygyrch i bawb. Bydd yr ardal hefyd yn gwasanaethu fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymunedol.


**Llanbadrig Community Council's** investment was boosted with £10,000 NRS funding towards a £214,000 project to improve the Cemaes playing fields as well as develop a well-designed sustainable play area that's accessible to all. The area will also serve as a space to host community events.




Yn ddiweddar mae **Cyngor Cymuned Llannerchymedd** wedi derbyn £6,000 ar gyfer menter newydd, Hwb LlanNi. Yn barod wedi derbyn cyllid gan y Loteri Genedlaethol i drawsnewid lle gwag i greu canolfan gymunedol, bydd cefnogaeth NRS yn galluogi'r hwb i osod lifft grisiau er mwyn sicrhau mynediad i bawb i'r llawr cyntaf ar gyfer dosbarthiadau, cyfarfodydd a gweithdai. Mae Coleg Menai eisoes wedi dechrau cynnal cyrsiau TG ar gyfer trigolion lleol.

**Llannerchymedd Community Council** have recently received £6,000 for a new venture, Hwb LlanNi. Having had National Lottery funding to transform a vacant space to create a community hub, NRS support will allow the hub to install a stair lift to enable access for all to the first floor for classes, meetings and workshops. Coleg Menai have already begun holding IT courses for local residents.



# Prosiectau Cymydog Da / Good Neighbour projects

**Cyngor Cymuned Rhosybol** wedi derbyn £1,100 i gefnogi'r digwyddiad coffa a gynhaliwyd ar Fynydd Parys. Daeth tyrfaoedd ynghyd ar 15 Awst i dalu eu teyrnged ar achlysur 80ain Diwrnod VJ.

**CPD Bodedern 10 ac o dan** yn ddiweddar wedi derbyn £900 ar gyfer offer hyfforddi i'r tymor newydd.

**Cymdeithas Cymunedol Mechell** £1,000 tuag at gloddiad archaeolegol 10 diwrnod ym Maes Eglwys Llanfechell, gyferbyn â'r eglwys. Mae'n adeiladu ar gloddiad llwyddiannus blaenorol a gafodd rhan o'i gyllid gan NRS yn 2023. Bydd dros 50 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan ynghyd â phlant ysgol o'r ysgol gynradd leol.

**Parys Training** £1,000 ar gyfer gwelliannau i'r Copper Bins yn Port Amlwch er mwyn cefnogi'r trawsnewidiad i fewn i ofod ble gall busnesau bach gychwun.





**Rhosybol Community Council** received £1,100 to support the remembrance event held on Parys Mountain. Crowds gathered on15th August to pay their respects for the 80th VJ Day anniversary.

**CPD Bodedern under 10's Football Club** recently received £900 for training equipment for the new season.

**Cymdeithas Cymunedol Mechell** £1,000 towards a 10 day archaeology dig in Llanfechell Rectory Field, opposite the church. It builds on a successful previous dig which was part funded by NRS in 2023. Over 50 volunteers will participate along with school children from the local primary school.

**Parys Training** £1,000 for improvements to the Copper Bins in Amlwch Port to support the transformation into a space for small business start up units.

Please contact Mair Jones or Elin Parry Jones (good neighbour level) regarding applications, details at [www.gov.uk/government/collections/nrs-working-with-our-communities](https://www.gov.uk/government/collections/nrs-working-with-our-communities)




# Unrhyw gwestiynau?

# Any questions?



NDA | NRS Nuclear Restoration Services